# WE ARE
# #CARDIFFMET

**Gwybodaeth am y Sefydlu ac Ymrestru**

**BSc Iechyd yr Amgylchedd**

**YSGOL CHWARAEON A GWYDDORAU IECHYD**

**Blwyddyn Academaidd 2018/19**

**(Mynediad Uwch)**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**C O N T E N T S**


1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

2. Ymrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

3. Amserlen yr Wythnos Ymsefydlu

4. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Nodweddiadol

5. Dolenni Hanfodol / Defnyddiol

## 1. Croeso gan eich Tîm Addysgu

Croeso i BSc (Anrh) Iechyd yr Amgylchedd, sydd wedi'i hachredu gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a'r Sefydliad Diogelwch Galwedigaethol ac Iechyd (IOSH).

Y gobaith yw y bydd y rhaglen hon yn eich helpu i ddatblygu sylfaen wybodaeth gadarn ac yn eich galluogi i fireinio'r sgiliau hynny sy'n angenrheidiol i fodloni gofynion presennol a dyfodol maes iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd sy'n newid o hyd.

Nod y rhaglen a'r tîm addysgu yw darparu awyrgylch cadarnhaol ac adeiladol, a fydd yn hwyluso cyfnewid gwybodaeth a phrofiad rhwng y staff addysgu, chi eich hun a'ch cyfoedion.

Rydym yn gweithredu polisi drws agored a byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw gwestiynau neu faterion y gallech ddod ar eu traws o ran eich astudiaethau a'ch profiad dysgu yn cael sylw mewn modd priodol ac amserol.  Rydym hefyd yn croesawu unrhyw adborth a allai fod gennych yn ystod y rhaglen ac yn eich annog chi i gymryd diddordeb yn natblygiad y rhaglen ac felly eich profiad dysgu eich hun.

Gyda hyn mewn golwg hoffai'r tîm addysgu a minnau eich croesawu i'r rhaglen a gobeithio y byddwch yn mwynhau astudio gyda ni.

**Gayle Davis**
**Cyfarwyddwr y Rhaglen**

## 2. Ymrestru / Casglu Cerdyn Myfyriwr MetCard

Mae ymrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws fel Myfyriwr.
Gallwch gwblhau'r broses hunanymrestru ar-lein o unrhyw gyfrifiadur drwy ein system Hunanwasanaeth. Er mwyn hunanymrestru, noder bod yn rhaid i'ch statws fod yn Ddiamod.

Byddwch yn cael e-bost yn eich hysbysu pan fyddwch yn gymwys i ymrestru ar-lein. Bydd yr e-bost yn eich cyfeirio at gyfleuster ailosod cyfrinair er mwyn gofyn am gyfrinair i allu mewngofnodi a chwblhau'r broses ymrestru. Am wybodaeth ac arweiniad ar y broses hon, gwnewch yn siŵr eich bod yn ymweld â'n tudalen ymrestru - www.cardiffmet.ac.uk/enrolment.

Mae'r broses hon yn hanfodol gan y bydd yn caniatáu i chi gael mynediad at eich benthyciad myfyriwr (os gwneir cais amdano), talu ffioedd, systemau TG Met Caerdydd ac yn bwysig iawn, yn eich galluogi i gael eich Cerdyn Myfyriwr MetCard.

Byddwch hefyd yn derbyn eich Llawlyfr Rhaglen yn ystod eich Wythnos Ymsefydlu.

**Ymrestru ar gyfer Myfyrwyr Rhyngwladol o'r tu allan i'r UE**

Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol (o'r tu allan i'r UE) **ni fydd** yn ofynnol i chi ymrestru ar-lein cyn cyrraedd Met Caerdydd. Y rheswm am hyn yw ei bod yn ofyniad cyfreithiol i'r brifysgol wirio dogfennau mewnfudo myfyrwyr rhyngwladol cyn iddynt gael caniatâd i ymrestru ar eu cyrsiau. Am ragor o wybodaeth am ymrestriad myfyrwyr rhyngwladol a rhestr o ddogfennau y bydd angen i chi ddod â nhw gyda chi, ewch i'r tudalennau myfyrwyr rhyngwladol neu cysylltwch â'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo yn immigrationregs@cardiffmet.ac.uk Ffôn: 029 2041 5644.

**Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth**

Bydd gennych fynediad at Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Met Caerdydd yn fuan ar ôl cwblhau eich ymrestriad ar-lein. Anfonir e-bost atoch i gadarnhau gyda'ch manylion mewngofnodi Met Caerdydd. I weld y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/library.

**Eich Cerdyn Myfyriwr MetCard**

Nodir amser a drefnwyd i chi gasglu eich cerdyn MetCard yn eich gwybodaeth **Wythnos Ymsefydlu**. Mae eich cerdyn MetCard yn rhoi mynediad i chi i holl adeiladau a drysau'r prif gampws. Gallwch hefyd ychwanegu arian at eich cerdyn MetCard i allu cael mynediad at a thalu am ddefnyddio argraffwyr hunanwasanaeth, copïwyr a gwasanaethau'r Stiwdio Argraffu. Am fanteision pellach y cerdyn MetCard, cliciwch yma.

**Ffioedd**

Eich ffioedd rhaglen ar gyfer dechrau ym mis Medi 2018 yw £9,000. Os oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth eich rhaglen, fe'u rhestrir ar www.cardiffmet.ac.uk/additionalcosts. Dylech fod yn ymwybodol o'r costau hyn eisoes.

## 4. Amserlen yr Wythnos Ymsefydlu

Mae eich semester cyntaf fel myfyriwr newydd yn dechrau gyda'r Wythnos Ymsefydlu, pan fyddwch yn dod i arfer â'ch llety, eich cwrs a bywyd myfyrwyr. Mae amserlen eich Wythnos Ymsefydlu yn rhoi rhestr o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio i sicrhau eich bod yn ymgyfarwyddo â Met Caerdydd, ei gyfleusterau a'ch cyd-fyfyrwyr. Byddwch yn cael cyfle i fynychu ystod o ddigwyddiadau'n ymwneud â'ch cwrs, gwasanaethau llyfrgell, TG, gwasanaethau myfyrwyr ac undeb y myfyrwyr. Byddwch hefyd yn cael nifer o sesiynau gyda'ch tiwtor personol er mwyn gwneud eich cyfnod pontio academaidd mor esmwyth â phosib.

Cynhelir ffair y glas lle gallwch ymaelodi â nifer o gymdeithasau a chlybiau gwahanol, a digwyddiad cymdeithasol FreshFest brynhawn dydd Gwener.

**Peidiwch ag anghofio cyfrannu ar Twitter gan ddefnyddio** #metcaerdydd.

Os ydych chi'n newydd i Gaerdydd, bydd digon o gyfleoedd hefyd i chi archwilio'r ddinas, gwneud ffrindiau newydd ac ymgyfarwyddo â'ch bywyd newydd.

**<u>Mae eich amserlen gynefino fel a ganlyn:</u>**

**Dydd Mercher 19 Medi**
10 am-4 pm
Ffair y Glas, Campws Cyncoed, Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol (NIAC)
*Er mai Ffair y Glas yw hon, mae'n agored i'r holl fyfyrwyr, yn rhai newydd ac yn rhai sy'n dychwelyd os hoffech fynychu.*

**Dydd Gwener 21 Medi 2018**
**9 am - cwrdd â Chyfarwyddwr eich Rhaglen yn y brif dderbynfa yng Nghampws Llandaf**
**9am - 11am** – brecwast ar gyfer pob blwyddyn
*Cyfle i chi gwrdd â staff a myfyrwyr ar y rhaglen gyfan ac o fewn eich carfan a chyfle i ofyn cwestiynau a dechrau ymgyfarwyddo.*
**11am -1pm** - cynefino grwpiau blwyddyn penodol sy'n ymwneud â'ch blwyddyn astudio.
**2 pm – 7pm** - MetFest
*Digwyddiad cymdeithasol ar y safle gyda bariau, bwyd stryd, cerddoriaeth a mwy.*

## 5. Amserlen Ddrafft / Presenoldeb Arferol

Er fy mod yn gwerthfawrogi bod llawer o bethau yn mynd â'ch amser, ni allaf orbwysleisio bod presenoldeb rheolaidd yn hanfodol er mwyn pasio'r modiwlau ac ennill gradd dda ar ddiwedd eich cwrs.

Fel arfer mae 12 awr o gyswllt dosbarth yr wythnos, sy'n cynnwys 6 darlith fydd yn cael eu cyflwyno i'r cwrs cyfan a 6 awr o seminarau neu weithdai, lle y caiff myfyrwyr eu rhannu'n grwpiau llai. Bydd strwythur y rhain yn dibynnu ar y modiwl, ond yn gyffredinol maent yn cynnwys trafodaethau grŵp ar bynciau ac ymarferion datrys problemau rhyngweithiol neu fyfyrwyr yn cyflwyno gwaith a baratowyd eisoes i'w cyfoedion ac aelod o staff.

Byddwn yn rhoi amserlen fwy manwl i chi cyn gynted â phosibl, ond os oes gennych unrhyw broblemau neu faterion penodol, cysylltwch â Chyfarwyddwr y Rhaglen ac fe wnawn ein gorau i'ch cynorthwyo.

*DS: Mae amserlenni yn amodol ar newid, hyd at a chan gynnwys dechrau'r tymor.*

## 6. Dolenni Hanfodol

- Amserlen
  Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad at eich amserlen sydd wedi'i chadarnhau. Mae angen i chi fod wedi ymrestru cyn y gallwch agor y ddolen, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

- Costau Ychwanegol Cyrsiau
  Costau ychwanegol yw'r costau gorfodol neu ddewisol, yn ychwanegol at ffioedd dysgu, y mae angen i fyfyrwyr eu talu er mwyn cymryd rhan yn llawn a chwblhau eu hastudiaethau. Maent yn cynnwys pethau fel cyfarpar, tripiau, lleoliadau a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen wahanol gostau ychwanegol.

- Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau
  Cyngor i fyfyrwyr rhyngwladol o'r tu allan i'r UE ar wneud eich cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety neu fanteisio ar y Gwasanaeth Croesawu Maes Awyr. Bydd y Swyddfa Ryngwladol a Phartneriaethau yn darparu cyngor ar gymorth lles a dysgu trwy gydol eich cwrs.

- Llety
  Mae myfyrwyr yn cael symud i Neuaddau o ddydd Gwener 14 Medi ymlaen, ond dim ond rhai sydd wedi cwblhau'r broses ymrestru'n llwyddiannus fydd yn cael cysylltiad â'r we. Cynhelir digwyddiadau o'r adeg y byddwch yn cyrraedd a thrwy gydol y cyfnod Ymsefydlu. Bydd yr Adran Llety yn anfon manylion atoch pan fyddant wedi'u cadarnhau.

- Gwasanaethau Myfyrwyr
  Cymorth yn ystod eich amser gyda ni ynglŷn â'ch iechyd, eich lles, eich ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw darparu'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich cyfnod astudio mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Mae gwasanaethau cwnsela, anabledd a chaplaniaeth ar gael hefyd.

- Cyllid Myfyrwyr
  Gwybodaeth am Fenthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliaeth, grantiau nad oes angen eu had-dalu, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau a all fod ar gael.

## Dolenni Defnyddiol

- Cyfleusterau a Chwaraeon Met Caerdydd
- Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd *gan gynnwys gwybodaeth a bandiau llewys Wythnos y Glas*
- Dyddiadau'r Tymhorau
- Mapiau o'r Campws, Cabanau Beiciau a MetRider
  Mae gan Met Caerdydd ei wasanaeth bws ei hun o'r enw Met Rider. Byddwn yn anfon cais atoch gyda'ch Gwybodaeth Ymsefydlu ac Ymrestru. Mae gennym lefydd cadw beiciau ar bob campws hefyd, a chyfleusterau newid a chawodydd. Mae'r cabanau wedi'u cloi, a'r unig ffordd o'u defnyddio yw gyda'ch cerdyn MetCard ar ôl i chi gael caniatâd drwy'r parth gwybodaeth i-zone.
- Cynllun Tacsis Diogel
  Mae Met Caerdydd yn gweithredu cynllun Tacsis Diogel ar y cyd â Dragon Taxis, sy'n sicrhau bod gennych ffordd o gyrraedd adref bob amser.
- Rhithdeithiau
  Cymrwch gip arall ar ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhithdeithiau tywysedig.
- Llawlyfr Myfyrwyr
- Llawlyfr Academaidd
- Partneriaeth Santander a changen y campws
  Bydd cyfle i fyfyrwyr agor cyfrif Santander yn ystod Ffair y Glas. Bydd angen prawf adnabod â llun ohonoch i wneud hyn.
- Polisi Derbyn